

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Practis
Deintyddol Malpas**

28 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi safonau iechyd a gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Malpas yn 442 Heol Malpas, Casnewydd, NP20 6WE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 28 Ebrill 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi safonau iechyd a gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal¹. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011³. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r safonau hyn, ynghyd ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferwyd yn y sefydliad yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Malpas yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Malpas, Casnewydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Malpas yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, dau hylenydd, un therapydd deintyddol, un technegydd deintyddol, wyth nyrs ddeintyddol, pedwar derbynnnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol a diagnosis
- Deintyddiaeth ataliol
- Gorchuddion dannedd chwaraeon
- Llenwadau
- Coronau a phontydd
- *Addasu'r cnoad*
- Cannu dannedd
- Gorchuddion dannedd yn ystod y nos
- Sianel y gwreiddyn
- Triniaeth (tynnu dannedd)
- Dannedd gosod
- Dannedd gosod acrylig rhannol
- Dannedd gosod CR (*Centric Relation*) /CO (*Centric Occlusion*) rhannol neu ddannedd gosod hyblyg
- Invisalign (orthodonteg anweledig)

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Malpas yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal mis Ebrill 2015.

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon dros ben ar y practis ac ar safon y gofal a thriniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Mae'r practis yn gofyn am adborth cleifion er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y manau a archwiliwyd, gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel ac o ansawdd uchel i gleifion. Roeddem o'r farn bod safon y cyfleusterau clinigol a'r cofnodion yn eithriadol o uchel. Roedd trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer rhoi cyffuriau mewn achos brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd agweddau ar y cyfarpar radiograffeg a'r hyfforddiant dadebru staff yr oedd angen eu gwella.

Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleifion, a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel. Gwelsom fod y staff yn ymroddgar a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Roedd angen gwneud gwelliannau i agweddau ar y gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y weithdrefn amddiffyn plant ac oedolion ac un manylyn yn y weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod systemau monitro a systemau gweinyddol cadarn wedi'u sefydlu ar y cyfan.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon dros ben ar y practis ac ar safon y gofal a thriniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y practis yn gofyn am adborth cleifion er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Anfonwyd holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 57 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng tair wythnos a 41 o flynyddoedd.

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i dderbyn yn y practis a'u bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd rhai o'r cleifion eu bod wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd ond nad oedd hyn yn digwydd yn aml, ond nododd un claf y gallai hyn fod rhwng deg munud a 30 munud. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Fydden i byth yn newid practis, mae'r staff yn fy adnabod yn dda iawn ac mae'r holl gyfeillgarwch yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol gan nad ydw i'n hoff o ymweld â'r deintydd"

"Rwy'n 100% hapus â'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn ym Mhractis Deintyddol Malpas. Mae staff y dderbynfa yn hyfryd ac yn gyfeillgar, ac mae'r driniaeth rwy'n ei chael (gan y deintydd) bob amser yn wych"

"...Gwasanaeth gwych. Rwy'n mwynhau dod at y deintydd...Cefais lawer o gymorth gyda fy merch ac mae eu cyngor yn wych. Y cwbl alla'i ddweud yw da iawn chi"

"Mae'r ddeintyddfa bob amser yn lân ac yn daclus"

"Mae pawb wedi bod yn gymwynasgar, yn gadarnhaol ac yn broffesiynol bob amser"

Pan ofynnwyd i'r cleifion ynghylch gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol o ran gwybodaeth am driniaethau:

"mae digon o wybodaeth ar gael bob amser"

“Os caf i rywfaint mwy (o wybodaeth), byddai'n gallu mynd yn ddeintydd i mi fy hun”

“...gwybodaeth gynhwysfawr iawn”.

Ymhlith y sylwadau eraill a wnaeth y cleifion roedd:

“bob amser yn dda gydag amseroedd apwyntiadau”

“cymwynasgar iawn gyda fy nghadair gwthio ac yn newid amser yr apwyntiad os ydw i'n hwyr”

“...bob amser yn gymwynasgar dros y ffôn os ydw i angen newid dyddiad/amser apwyntiad sydd wedi'i drefnu”

“Mae'n anodd trefnu apwyntiad yn ystod y dydd weithiau gan fy mod yn gweithio'n llawn amser ac oherwydd amser teithio – byddai cynnal apwyntiadau gyda'r nos o gymorth”

“Byddwn yn hoffi gweld cynnwys siwgr mewn cynnyrch pob dydd yn cael ei arddangos”

“Mae'n cael ei redeg yn broffesiynol iawn, ond er hynny, mae'n bractis sy'n cael ei redeg fel ffatri. Mae triniaethau'n dueddol o gael eu gwneud drosodd a throsodd”.

Roedd tua dwy ran o dair o gleifion yn gwybod sut i gael gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau, ac roedd y rhai o'r cleifion nad oeddent yn gwybod yn teimlo y byddent yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth pe byddent ei hangen. Gwiriwyd neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a chanfuom fod gwybodaeth ynglŷn â gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i recordio er gwybodaeth i gleifion. Soniodd rhai o'r cleifion eu bod wedi sylwi ar rif cyswllt y tu allan i oriau wedi'i nodi ar eu cardiau apwyntiad, ac mae hyn yn ffordd arall mae'r practis yn ei ddefnyddio i hyrwyddo'r wybodaeth hon i gleifion.

Mae'r practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac ar sail argyfwng. Mae'r practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00 a.m. ac 5.30 p.m., ac ar ddydd Mawrth a dydd Iau am awr ychwanegol gyda'r nos i gleifion preifat. Mae'r practis hefyd ar agor bob yn ail ddydd Sadwrn rhwng 9.30 a.m. a 12.30 p.m. Mae hyn yn golygu bod apwyntiadau ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion mewn holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddai angen. Fodd bynnag, nododd rhai o'r cleifion eu bod yn teimlo'n hyderus y byddent yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon pe byddai

angen. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn glir ar yr hysbysfyrddau yn y manau aros ac mewn taflenni gwybodaeth i gleifion.

Roedd y practis wedi cynnal arolygon cleifion yn rhan o gynlluniau allanol ar gyfer achrediad, ac wedi sefydlu ffordd newydd o werthuso profiad cleifion trwy ddefnyddio rhaglen meddalwedd newydd. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cofnodi adborth anffurfiol yn unrhyw le yn systematig, nac yn defnyddio'r math hwn o adborth i ddadansoddi tueddiadau neu batrymau dros gyfnod er mwyn gwella'r gwasanaeth. Awgrymwyd y gallai'r practis gadw cofnod o sylwadau anffurfiol yn rhan o'u dull o gael adborth gan gleifion.

Cadarnhaodd cofnodion cleifion a'n holiaduron fod cleifion yn cael eu hysbysu am y risgiau, y manteision a'r triniaethau amgen er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â'u triniaeth. Darparwyd cynllun triniaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion hefyd.

Roedd amrywiaeth eang o ddefnydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion ac roeddent yn rhoi crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r practis.

Cyflenwi safonau iechyd a gofal

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y manau a archwiliwyd, gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel ac o ansawdd uchel i gleifion. Roeddem o'r farn bod safon y cyfleusterau clinigol a'r cofnodion yn enwedig, yn uchel. Roedd trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer rhoi cyffuriau mewn achos brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd agweddau ar y cyfarpar radiograffeg a'r hyfforddiant dadebru staff yr oedd angen eu gwella.

Cyfarpar Radiograffeg/Dogfennau

Ar y cyfan, roedd trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phroffion ar gael, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwelsom nad oedd unrhyw arwyddion wedi'u harddangos i ddynodi ble'r oedd y manau rheoledig penodol ble defnyddir cyfarpar radiograffeg. Argymhellir gosod arwyddion priodol i rybuddio'r staff a'r cyhoedd bod yr ardal yn fan rheoledig, natur y ffynonellau ymbelydredd yn yr ardal honno, a'r risgiau sy'n codi yn sgil ffynonellau o'r fath.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o arwyddion yn cael eu harddangos ar gyfer y manau rheoledig a'u bod yn briodol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999).

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau priodol o ran hysbysu Gweithredwr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffeg. Dywedodd y staff wrthym nad oedd archwiliadau sicrhau ansawdd wedi'u cynnal ar gyfer ansawdd delweddau'r radiograffau ers sawl blwyddyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer radiograffau a chyfarpar radiograffeg yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999).

Dadebru a Chymorth Cyntaf

Gwelsom fod polisi dadebru wedi'i sefydlu. Roedd un aelod o staff yn swyddog cymorth cyntaf penodedig ar y safle ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar. Roedd offer dadebru priodol ar gael i'r staff pe byddai argyfwng meddygol (llewygu). Ar adeg yr arolygiad, roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU), ond nid oedd pawb o'r staff wedi gwneud hynny. Er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i reoli argyfyngau meddygol, roedd hyn yn golygu nad oedd pob aelod o'r staff wedi diweddarau eu hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant dadebru bob blwyddyn, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru (DU).

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn lleoliad da a diogel. Roedd system yn cael ei gweithredu ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben cyffuriau bob mis, a hynny gan unigolyn penodedig, ac roedd yr holl gyffuriau a archwiliwyd o fewn eu dyddiad dod i ben. Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel hefyd er mwyn osgoi mynediad heb ganiatâd. Roedd system wedi'i sefydlu ar gyfer ymateb i adweithiau niweidiol i gyffuriau, yn ogystal ag ar gyfer adrodd am hynny.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar gael. Roedd polisi a gweithdrefn gyfredol ar waith ar gyfer trin mercwri yn ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Roedd un ystafell benodol ar gael yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Dangosodd y staff y gweithdrefnau dadheintio maent yn eu dilyn er mwyn ein galluogi i asesu sut maent yn gweithio yn ymarferol.

Roedd y staff yn cario offer rhwng ystafelloedd triniaeth mewn cynwysyddion dan sêl, ac roedd offer glân yn cael eu cadw'n briodol. Roedd sinciau penodol ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff. Roedd yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl eu sterileiddio, gan nodi'r dyddiad prosesu arnynt. Roedd yr holl offer a archwiliwyd

o fewn eu dyddiad defnyddio ac roedd system fewnol yn cael ei gweithredu ar gyfer gwirio hyn, a hynny o fewn amserlenni penodedig. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas wedi'u sefydlu ar gyfer amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

Gwelsom fod y llyfrau cadw cofnod ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau safonol oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd pob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau o ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau, a sicrhau bod y cyfarpar yn lân ac yn ddiogel at ddefnydd y cleifion.

Cyfleusterau clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gwelwyd eu bod yn lân, bod digon o gyfarpar ynddynt, eu bod yn drefnus, a'u bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd digon o offer deintyddol a chyfarpar ar gael, ac roeddent i gyd mewn cyflwr da ac wedi'u cadw'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod digon o eitemau untro a chyfarpar diogelu ar gael.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais fecanyddol sy'n cywasgu aer ar gyfer storio, ac a ddefnyddir gydag offer llaw ac offer deintyddol eraill sy'n defnyddio aer) yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u harchwilio, yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal ar gyfer gwirio bod y dyfeisiadau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y labordy ar y safle wedi'i gofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cyfleusterau clinigol o safon uchel.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd y cofnodion cleifion yn y practis yn ardderchog, ac roedd cofnodion trylwyr a manwl wedi'u gwneud o ran gofal a thriniaeth y cleifion.

Gwelsom fod y cofnodion o hanesion meddygol yn gyson yn y nodiadau cleifion, a bod hanesion meddygol yn cael eu diweddarau yn ystod pob ymweliad.

Gwelsom fod y deintyddion yn cael cydsyniad cleifion i driniaeth ac yn cofnodi hynny. Gwelsom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth a dewisiadau o ran triniaeth yn gyson.

Gwelsom fod hanesion cymdeithasol cleifion yn cael eu hystyried, a phan fo hynny'n briodol, bod deintyddion yn cynnig cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd y deintyddion yn gwneud atgyfeiriadau priodol i weithwyr iechyd proffesiynol eraill pan oedd angen hynny.

Ar y cyfan, rhoddwyd sicrwydd i ni fod y deintyddion yn gweithio gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth moesegol ac o ansawdd uchel, ac roedd safon y cofnodion yn y practis yn uchel iawn.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleifion, a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth diogel. Gwelsom fod y tîm staff yn ymroddgar a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Roedd angen gwneud gwelliannau i agweddau ar y gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y weithdrefn amddiffyn plant ac oedolion, ac un manylyn yn y weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod systemau monitro a systemau gweinyddol cadarn wedi'u sefydlu ar y cyfan.

Staff

Roedd y practis wedi bod ar agor ers 1979 a daeth y perchennog presennol i'r practis yn 2005. Roedd y practis yn darparu traean o'r gwasanaethau ar gyfer cleifion y GIG, traean ar gyfer cleifion preifat, a thraean ar gyfer cleifion wedi'u cofrestru ar gynllun talu deintyddol. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddgar, ac yn canolbwyntio ar y claf, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael digon o gefnogaeth.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontract gwaith.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Trafodwyd hyn â'r practis, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol. Nid yw'n orfodol i staff deintyddol eraill a staff eraill yn y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n cyflogi yn cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau addasrwydd y staff ar gyfer cyflogaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i bob deintydd sy'n darparu deintyddiaeth breifat gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Rhaid i'r practis sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hyn.

Gwelsom fod tystysgrifau pob deintydd, a oedd yn cadarnhau eu cofrestrriad, wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol, ac roeddent i gyd yn meddu ar yswiriant indemniad ar gyfer eu harfer clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm a dywedodd y staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. Gwelsom fod ystod o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau o'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u pynciau eu hunain i'w hystyried. Gwelsom enghreifftiau o sut roedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Roedd hyn yn golygu bod gan y tîm le mwy ffurfiol i fynegi pryderon er mwyn gwella'r arfer, ac roeddent yn dysgu o ganlyniad.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnal arfarniadau yn rheolaidd a gwelsom gofnodion o'r arfarniadau a oedd yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cael mynychu cyfarfodydd ffurfiol am gymorth a datblygiad proffesiynol.

Amddiffyn Plant ac Oedolion

Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ond heb gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff wedi cadw lle ar gyrsiau sydd i ddod ar amddiffyn oedolion er mwyn rhoi sylw i hyn. Roedd polisi amddiffyn plant wedi'i sefydlu ac roedd manylion cyswllt timau lleol wedi'u harddangos yn glir, pe byddai staff angen gwneud atgyfeiriad at dimau amddiffyn plant. Nid oedd polisi amddiffyn oedolion agored i niwed wedi'i sefydlu. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan y staff weithdrefn ffurfiol wedi'i chytuno arni i'w dilyn pe byddent yn amau bod oedolyn agored i niwed yn cael ei gam-drin.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi amddiffyn oedolion agored i niwed wedi'i sefydlu, a bod yr holl staff yn ymwybodol ohono. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Cwynion

Edrychwyd yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gwelsom ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'⁴ y GIG. Roedd gweithdrefn gwyno ar wahân ar gyfer y trefniadau gwahanol i gleifion preifat. Cynghorwyd y practis i ychwanegu manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ati, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi'n glir a bod manylion da wedi'u nodi ynglŷn â'r camau roedd y practis wedi'u cymryd er mwyn rhoi sylw i gwynion. Roedd cwynion yn cael eu cadw'n ganolog ac ar wahân i gofnodion cleifion. Roedd sylwadau ar lafar a phryderon yn cael eu cofnodi hefyd. Argymhellwyd y gallai'r practis ffurfioli'r modd maent yn adolygu cwynion yn ei gyfanrwydd, a dod o hyd i dueddiadau a phatrymau dros gyfnod fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gyfforddus i fynegi pryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu ac roedd y staff yn gallu ei ddefnyddio i fynegi ac uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Roedd y practis yn aelod o raglen arfer gorau (sicrhau ansawdd) Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Gwelsom fod adolygiadau ac archwiliadau gan gymheiriaid wedi'u cynnal yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith yn y practis ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaethau maent yn eu darparu er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Roedd gan y practis wefan llawn gwybodaeth a oedd yn bodloni'r holl ofynion perthnasol.

⁴ Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr fynegi pryderon. Cyflwynodd un dull mwy integredig, gan ddod â'r broses rheoli cwynion, y digwyddiadau a'r honiadau at ei gilydd, wedi'u seilio ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

Polisiâu a Gweithdrefnau

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol wedi'u sefydlu, a'u bod wedi'u hadolygu a'u diweddarau.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Mae'r practis wedi'i leoli yn ardal Malpas, Casnewydd. Mae'r practis wedi'i osod ar ddau lawr ac mae pum ystafell driniaeth. Mae lleoedd parcio ar ochr stryd ar gael gerllaw.

Mae llawr daear y practis yn hygyrch i bobl â chadeiriau olwyn ac mae'r toiled i gleifion hefyd yn gwbl hygyrch.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Y tu mewn roedd yr amgylchedd wedi'i oleuo, ei wresogi, a'i awyru'n briodol, ac roedd yn lân ac yn daclus.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, yr amseroedd agor, a'r rhifau cyswllt mewn argyfwng at ddefnydd y cleifion. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd toiled staff ar wahân ar gael lle roedd y staff yn gallu newid, ond nid oedd ystafell staff i'w rhannu ar gael. Dywedodd staff y practis wrthym nad oeddent wedi gallu ymestyn y safle i'r eiddo drws nesaf fel y gobeithiwyd oherwydd bod y caniatâd cynllunio wedi'i wrthod. Byddai hyn wedi rhoi mwy o gyfleusterau staff a lleoedd parcio. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dod i ben â'r cyfleusterau presennol sydd ar gael.

Roedd y toiledau i'w gweld yn lân ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd manau aros ar y ddau lawr ac roeddent o faint addas i nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd staff y dderbynfa'n gwybod sut i gadw cyfrinachedd cleifion. Roedd deunydd darllen ac amrywiaeth eang o bosteri a thafleuni yn rhoi cyngor ac yn hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio. Roedd mesurau diogelwch priodol wedi'u sefydlu er mwyn rhwystro mynediad heb ganiatâd i'r adeilad.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo ac roedd copi electronig o gofnodion yn cael eu cadw wrth gefn yn awtomatig. Roedd hyn yn

golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon addas er mwyn gwarchod gwybodaeth am gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Malpas yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Malpas

Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	Dim wedi'i nodi			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
9	Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o arwyddion yn cael eu harddangos ar gyfer y manau rheoledig a'u bod yn briodol. [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999) (18, 1 ai);Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Dinoethiad Meddygol) 2000,Safonau Iechyd a Gofal 2.9]	Mae arwyddion wedi'u gosod ar bob drws ystafell driniaeth	Deb Morgan	Wedi'i gwblhau 14/05/15
9	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal	System feddalwedd ddeintyddol newydd sy'n ein	Keith Morgan	Wedi'i gosod

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer radiograffau a chyfarpar radiograffeg yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999). 32 (3).</p> <p>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, (32, 3); Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Dinoethiad Meddygol) 2000; Safonau Iechyd a Gofal 2.9]</p>	galluogi i archwilio ansawdd radiograffau		11/05/15
10	<p>Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant dadebru bob blwyddyn, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru (DU).</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1, Safonau Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6 a 6.6.6, Cyngor Dadebru'r DU]</p>	Mae pob aelod o'r tîm wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant blynyddol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd gyda Lubas Medical	Keith Morgan	02/07/15
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
13	Mae angen i bob deintydd sy'n darparu deintyddiaeth breifat gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd.	Maent wedi cael y gwaith papur gan AGIC. Mae'r deintyddion wedi cael gwaith papur i'w gwblhau a'i ddychwelyd at reolwr y practis er mwyn sicrhau bod y cyfan yn cael ei anfon gyda'i gilydd.	Debbie Morgan	30/06/15

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008]			
14	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi amddiffyn oedolion agored i niwed (POVA) wedi'i sefydlu, a bod yr holl staff yn ymwybodol ohono. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5, Safonau Iechyd a Gofal 2.7]</p>	<p>Mae polisi POVA wedi'i sefydlu ac mae wedi'i roi i bob aelod o'r tîm. Bydd yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod staff nesaf ar 01/07/15. Bydd hyn yn ein galluogi i drafod yr hyfforddiant POVA y byddwn yn ei fynychu ar 17/06/15</p>	Keith Morgan	01/07/15
15	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.</p> <p>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 15.4(a)]</p>	<p>Ffoniwyd Dental Design ar unwaith er mwyn diweddarau ein polisi cwyno ar gyfer cleifion preifat ar ein gwefan gyda manylion AGIC. Mae'r polisi cwyno gweithredol ar gyfer cleifion preifat wedi'i ddiweddarau gyda manylion AGIC hefyd.</p>	Debbie Morgan	14/05/15
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dim wedi'i nodi			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): Keith P Morgan

Teitl: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 11/06/15